**PRIFYSGOL CYMRU**

Cofnodion ANGHYFYNGEDIG y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 11.00am ddydd Iau 30 Mawrth 2023 drwy Zoom

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Emlyn Dole
Yr Athro Medwin Hughes
Tim Llewelyn
Arwel Ellis Owen
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Deris Williams

Yn bresennol hefyd:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Elena Rodriguez-Falcon, Dirprwy Is-Ganghellor
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.01 Ymddiheuriadau am absenoldeb | Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.02 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD Cyngor PC y Datganiadau o Fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (UWC250). | |
| 23.03 Penodi llywodraethwr annibynnol | Yn dilyn ei benodiad yn Gadeirydd Cyngor PCYDDS, CYMERADWYODD Cyngor PC benodiad Emlyn Dole yn aelod annibynnol (UWC251).<br><br>Nododd yr aelodau, o dan y Weithred rhwng PC a PCYDDS, fod Cadeirydd PCYDDS hefyd yn Gadeirydd Cyngor PC, gyda'r cyfnod mewn swydd yn cyd-redeg, ac y byddai Emlyn Dole felly'n dod yn Gadeirydd Cyngor PC maes o law. | |
| 23.04 Adroddiad ariannol a llif arian parod | YSTYRIODD Cyngor PC yr adroddiad ariannol a llif arian parod (UWC252).<br><br>Dywedodd y CGA fod PC ar y trywydd iawn i sicrhau gwarged o ran ei gyllideb a'i sefyllfa ariannol am y flwyddyn ac nad oedd unrhyw bryderon i'w codi ar hyn o bryd.<br><br>Roedd perfformiad Gwasg PC yn parhau yn well na'r gyllideb gyda'r diffyg cyn unrhyw gyllid gan y Brifysgol £7k yn well na'r gyllideb ar £131k. Gyda chyllid y Brifysgol roedd y Wasg yn debygol o gyflawni diffyg bychan. | |
| 23.05 Cofnodion: 24 Tachwedd 2022 | CYMERADWYODD Cyngor PC Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 (UWC253). | |
| 23.06 Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl | CYMERADWYODD Cyngor PC y Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl (2021/22) (UWC254). | |
| 23.07 Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | YSTYRIODD Cyngor PC adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023 (UWC255).<br><br>CYMERADWYODD Cyngor PC argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i fabwysiadu newid ym mhwysoliad buddsoddiadau yng nghynlluniau mewnol UWSS ac UWLPS yn unol ag argymhelliad Ymddiriedolwyr yr UWLPS/UWSS. | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.08<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD Cyngor PC adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023 (UWC256). | |
| 23.09<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD Cyngor PC adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023 (UWC257). | |
| 23.10<br>Adroddiad y Bwrdd Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 (UWC258). | |
| 23.10<br>Datganiadau o fuddiannau | Nododd Dr Stuart Robb ei fod yn ymddiriedolwr UWRET (eitem 22.51 – datganiadau Ariannol) | |
| 23.11<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau 6 Gorffennaf 2023. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 11.20